DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 26 IONAWR 2017 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 26 JANUARY 2017, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd on Dydd Iau, 26 Ionawr 2017 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 20 Ionawr 2017

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Munud o Dawelwch**<br><br>*Munud o dawelwch er cof y cyn-Arglwydd Faer a chyn-gynghorydd Dinas Caerdydd, y Cynghorydd John Smith a fu farw 28 Rhagfyr 2016.* | 4.30 pm | 30 mins |
| **2** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.35 pm | 5 mins |
| **3** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau).* | | |
| **4** | **Cofnodion**<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2016 fel gwir gofnod* ***(I ddilyn)*** | | |
| **5** | **DEISEBAU**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 5.05 pm | 5 mins |
| **6** | **Cwestiynau gan y Cyhoedd**<br><br>*Derbyn cwestiynau a nodwyd yn flaenorol gan y Cyhoedd.* | 5.10 pm | 15 mins |
| **7** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 5.25 pm | 20 mins |
| **8** | **Canllawiau Cynllunio Ategol**<br>*(Tudalennau 1 - 230)*<br><br>*Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol*<br>*Rhwymedigaethau Cynllunio*<br>*Canllaw Dylunio Preswyl*<br>*Adeiladau Uchel*<br><br>*Cynnig y Cabinet* | 5.45 pm | 30 mins |
| **9** | **Fargen Rhanbarth y Brifddinas Dinas Caerdydd**<br>*(Tudalennau 231 - 446)*<br><br>*Adroddiad y Prif Weithredwr* | 6.15 pm | 45 mins |
| **10** | **Datganiadau**<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 7.00 pm | 45 mins |

| Hysbysiad Cynnig | | | |
|---|---|---|---|
| **11** | **Cynnig 1**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Neil McEvoy<br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Tariq Awan<br><br>1. Mae’r Cyngor hwn mewn egwyddor yn nodi’r canlynol:<br>i. y difrod amgylcheddol enfawr wedi'i gynllunio trwy Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd.<br>ii. y gwrthddywediad rhwng rhagolygon rhanbarthol Polisi Llywodraeth Cymru a nodwyd a natur unigol cynllunio awdurdod lleol trwy gynlluniau datblygu lleol.<br>iii. y gwrthddywediadau rhwng nodau ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a nodwyd a’r realiti y bydd Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn ei gyflawni yn y Ddinas.<br>iv. yn enwedig mae’r Cyngor hwn yn nodi y bydd canlyniadau Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn mynd yn erbyn:<br>a) Cymru sy’n gyfrifol yn fyd-eang<br>b) Cymru fwy iach, yn enwedig gan y rhagwelir na ddarperir gwelyau ychwanegol yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd<br>c) Cymru ffyniannus<br>d) Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu<br>e) Cymru sydd â chymunedau cydlynol<br>f) Cymru wydnwch<br>g) Cymru sy’n fwy cyfartal<br><br>2. Mae’r Cyngor hwn o’r farn nad yw Datblygu Lleol Caerdydd yn cyd-fynd â datblygu cynaliadwy:<br>i. Bydd dinistrio mannau gwyrdd a choetiroedd yn:<br>a) peryglu bywyd gwyllt<br>b) gwneud Caerdydd yn fwy tueddol i gael llifogydd<br>c) cynyddu ôl troed carbon Caerdydd<br>d) gwaethygu ansawdd awyr sydd eisoes yn wael<br>e) cynyddu nifer y ceir ar ffyrdd Caerdydd yn sylweddol, tra nad oes cynlluniau pendant i uwchraddio’r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus<br><br>3. Mae’r Cyngor o’r farn glir bod angen ailystyried ffigurau'r boblogaeth a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau twf tai cyn Refferendwm Brexit o ystyried y newid a ragwelir i'r polisi mewnfudo.<br><br>4. Mae’r Cyngor yn gofyn i swyddogion lunio adroddiad i’w | 7.45 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwblhau rhwng 4 Mai 2017 a diwedd Mehefin 2017, gyda goblygiadau ariannol llawn er mwyn defnyddio Adran 68 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol i ofyn i Lywodraeth Cymru ddiddymu Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd. | | |
| **12** | **Cynnig 2**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Elizabeth Clark<br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Robin Rae<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:<br><br>• Yn ôl Ystadegau Llywodraeth Cymru, mae tipio anghyfreithlon yng Nghaerdydd wedi cynyddu 59% yn 2015/16 (6,214 o ddigwyddiadau) o'i gymharu â'r llynedd. Roedd angen i Gyngor Caerdydd dalu £410,000 y llynedd er mwyn clirio'r tipio anghyfreithlon hwn, bron i chwarter o'r holl arian a wariwyd ar dipio anghyfreithlon yng Nghymru.<br>• Mae ffigurau tipio anghyfreithlon wedi'u gwaethygu o ganlyniad i gau Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Waungron Road yn Ebrill 2014<br>• Mae angen camau gweithredu brys er mwyn mynd i'r afael â phroblemau tipio anghyfreithlon Caerdydd<br><br>Felly mae'r cynnig hwn yn galw am y canlynol:<br><br>• Ysgubo strydoedd yn fwy, yn enwedig ar ôl diwrnodau casglu gwastraff<br>• Ailgyflwyno casgliadau eitemau swmpus am ddim yn llawn<br>• Camau gweithredu llym ar gyfer pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon a'r rhai hynny sy'n dympio gwastraff<br>• Pwyso ar Lywodraeth Cymru am ganiatâd i godi dirwyon ar gyfer pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon<br>• Mwy o gyflenwyr bagiau ailgylchu<br>• Cynyddu nifer y canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref fel y mae o leiaf 4 ledled y ddinas, gan gynnwys Heol Wedal."<br><br>Dylid paratoi adroddiad ar y mater i'r Weithrediaeth a/neu'r Cyngor ei ystyried fel sy'n briodol" | 8.15 pm | 30 mins |
| **13** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>*Derbyn cwestiynau llafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.* | 8.45 pm | 90 mins |
| **14** | **Materion Brys** | 10.15 pm | 5 mins |

| Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir | | | |
|---|---|---|---|
| **15** | **Penodi Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol**<br>*(Tudalennau 447 - 452)*<br><br>*Cymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 12 Ionawr 2017*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | 10.20 pm | 5 mins |
| **16** | **Aelodaeth y Pwyllgor a Chydbwysedd Gwleidyddol**<br>*(Tudalennau 453 - 456)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.*<br><br>*Mae'r Cyfansoddiad yn darparu y bydd y Cyngor yn penderfynu ar ddyrannu seddau i grwpiau gwleidyddol yn unol â rheolau Adran 17 Deddf Tai a Llywodraeth Leol 1989 sy'n ymwneud â Chydbwysedd Gwleidyddol.*<br><br>*Nodwch y gofynnir i'r Cyngor dan yr eitem hon gymeradwyo trefniadau eraill ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol llym ar gyfer penodiadau i bob pwyllgor yr oedd angen pleidlais Nem Con ar ei gyfer – dyna bleidlais i gymeradwyo heb unrhyw anghytundeb.* | | |
| **17** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |